# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017

Amser: 08.30 - 08.37

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Dirprwy Lywydd.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017 –**

- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

## 3.4 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol Aelod – Dewis cynnig ar gyfer y ddadl

- Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer dadl ar 25 Hydref:

**NNDM6350** Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer bil a fyddai'n addasu'r broses gynllunio fel bod rhagdybiaeth yn erbyn hollti hydrolig (ffracio).

2. Yn nodi mai diben y bil hwn fyddai amddiffyn tirwedd Cymru ac iechyd y cyhoedd.

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drefnu'r ddadl nesaf ar Gynnig Deddfwriaethol Aelod ar ôl hanner tymor.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – amserlen ar gyfer ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2017

Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymestyn y dyddiad cau i'r pwyllgor adrodd ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), cytunodd y Rheolwyr Busnes ar ddyddiad cau newydd, sef 23 Tachwedd 2017. Bydd y dyddiad cau estynedig hefyd yn berthnasol i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, gan fod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael ei gyfeirio at y ddau ohonynt.

### 4.2 Papur i'w nodi – adroddiad y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

Nododd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) fel y cytunwyd yng nghyfarfod yr wythnos diwethaf. Mae'n cynnwys wythnos ychwanegol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a slot ychwanegol i'r pwyllgor gwrdd ar fore Mawrth; mae'r ddau ar gais y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Adroddiad ar ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o'r effaith ar aelodaeth pwyllgorau a dyraniad cadeiryddion wrth i Aelod adael grŵp gwleidyddol

Cytunodd Rheolwyr Busnes ar yr adroddiad, a fydd yn cael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno. Bydd cynigion yn cael eu cyflwyno a'u hychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn yfory i ddod â phenderfyniadau'r Pwyllgor Busnes i rym ynghylch aelodaeth pwyllgorau, yn amodol ar Blaid Cymru yn cyflwyno enwau Aelodau i lenwi'r lleoedd gwag ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Deisebau, a Neil McEvoy yn nodi ei fod yn dymuno cymryd y cynnig o le ar y Pwyllgor Deisebau. Bydd y cynigion yn cael eu grwpio i'w trafod ond gyda phleidleisiau ar wahân, a bydd angen i bob un ohonynt gael eu pasio gan fwyafrif o ddwy ran o dair.